

Cyngor Cymuned LLANBEDROG Community Council

Cofnodion Cyfarfod Hybrid 30 Medi 2024 am 7:00 yr hwyr.

ENW	PRESENNOL	YMDDIHEURO
John Brinley Jones		✓
Alan Harper-Smith	✓	
Andrew Parry (Cadeirydd)	✓	
Greta Hughes	✓	
Gwenllian Davenport Hughes	✓	
Hywel James Sinclair Evans	✓	
Ian Goronwy Williams (Is-gadeirydd)	✓	
Keith Williams	✓	
Kevin Wheatley		✓
Thomas Victor Jones	✓	
William Roger Jones	✓	
HEFYD		
Caroline Jones (Clerc)	✓	
Ann Llwyd (Cyfieithydd) (Yn rhithiol)	✓	

1. Presennol ac ymddiheuriadau

Rhestrwyd yr aelodau'n bresennol, yn ogystal â'r ymddiheuriadau, yn y tabl uchod.

2. Datgan Buddiant Ariannol neu Bersonol

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad buddiant ariannol na phersonol.

3. Cofnodion - er mwyn cywirdeb yn unig. Pwyllgor 23 Gorffennaf 2024

Derbyniwyd y cofnodion yn unfrydol fel rhai cywir.

Cynigiwyd gan: Gwenllian Davenport Hughes

Eiliwyd gan: William Roger Jones

4. Unrhyw Fater Brys

4.1. Cais Cadw Cymru'n Daclus ([sawl opsiwn i'w trafod](#)):

Cyflwynodd y Cadeirydd manylion y grant uchod, gan awgrymu i wneud cais. Cytunwyd i Bwyllgor y Cae Chwarae ystyried gwneud cais Cadw Cymru'n Daclus.

Cytunwyd hefyd i'r Cyngor Cymuned wneud cais o dan yr un grant, neu ffynhonnell arall, i blannu blodau a bylbiau o gwmpas y pentref a chae chwarae.

4.2. Traffig Pentre'r Llan - derbyniwyd copi o gŵyn anfonwyd at Gyngor Gwynedd gan Oriol Plas Glyn y Weddw. Cefnogwyd Oriol Plas Glyn y Weddw efo'u sylwadau parthed Lôn Nant Iago. Cytunwyd efo sylwadau Plas Glyn y Weddw parthed cylchfan ger yr orsaf betrol ond yn rhwystredig am ddiffyg diddordeb a chefnogaeth Cyngor Gwynedd ar y mater.

Cofnodion Cyfarfod Hybrid 30 Medi 2024 am 7:00 yr hwyr.

5. Llwybrau

Adroddodd y Cadeirydd bod y llwybr rhwng Lôn Pin, ger allt Bryn Du / Tremeifion, a Ty'n Pwll sydd yn mynd yn fwdlyd iawn pan yn wlyb.

Gweithredu: Y Clerc i gysylltu gyda Roger Fisher i osod deunydd fel cerrig man ar y llwybr er mwyn gwella'r cyflwr.

Dywedodd James Evans bod ffens wedi cael ei godi ar hyd y llwybr tu ôl i Graig y Glyn. Dangoswyd pryder gan aelodau'r Cyngor Cymuned bod gor-ddatblygiad yno yn newid cymeriad y llwybr, a phosibilrwydd o lygredd gan fod nant yn rhedeg gerbron.

Gweithredu: Y Clerc i ddanfôn e-bost brys unwaith eto i adran Cynllunio Cyngor Gwynedd ar y mater datblygiadau pellach yng Nghraig y Glyn.

6. Y Fynwent, y Fynwent Newydd

Adroddodd y Clerc am un claddiad a oedd wedi digwydd heb rybudd i'r Cyngor Cymuned oherwydd bod y gwaith papur wedi eu danfon i dŷ y cyn glerc. Adroddodd y Clerc ei bod am ysgrifennu at bob ymgwymerwr i sicrhau bod y manylion cywir ganddynt. Gofynnwyd i'r Clerc atgoffa Dilwyn Williams i dwtio wal ei eiddo ar ffin y fynwent.

7. Cae Chwarae

Adroddwyd bod peth trafferth gyda thorri'r gwellt wedi digwydd yn yr haf gan nad oedd y contractwyr wedi cael mynediad i'r cae gan gar wedi ei barcio o flaen y giât. Gofynnwyd i'r Pwyllgor Cae Chwarae gofyn am drefniant o flaen llaw gyda'r contractwyr torri gwellt yn y dyfodol. Roedd y giât hefyd wedi malu yn yr haf ac wedi cael ei drwsio.

Gweithredu: Y Clerc i ysgrifennu at Gyngor Gwynedd i ofyn iddynt anfon llythyr i bob tiogolyn yng Nghae Hendy i bwysleisio'r pwysigrwydd i beidio parcio o flaen y giat. Hefyd i ofyn am oleuadau stryd yn y maes parcio yn y cefn, rhag ofn bod hyn yn rhwystro pobl i beidio parcio yno.

Adroddwyd bod *Japanese knotweed* wedi ail dyfu yn y cael chwarae. Dywedodd y Clerc bod y mater yma wedi derbyn sylw dros yr haf.

8. Neuadd y Pentref

Adroddodd Ian Williams ar ran y pwyllgor. Dywedodd bod llawer o waith clirio wedi digwydd eisoes a bod cyfarfod o'r pwyllgor yn cael ei gynnal ar y dydd Mercher wythnos honno.

Adroddwyd bod arddangosfa hen luniau Llanbedrog gan Iwan Hughes yn cael ei gynnal yn y neuadd ar 16 a 17 o Dachwedd.

Adroddodd y Cadeirydd bod Barbara Warren wedi trefnu i Roger Fisher drwsio drws yr ystafell gyfarfod gan ei fod mewn cyflwr berygl.

Cofnodion Cyfarfod Hybrid 30 Medi 2024 am 7:00 yr hwyr.

Adroddodd y Clerc ei bod angen diweddaru'r deunyddiau yn y diffibriliwr; cynghorwyd iddi gysylltu gyda'r gwasanaeth ambiwlans am gymorth.

9. Taliadau

Cytunwyd y taliadau isod:

Wedi eu derbyn a thalu dros yr haf ers y cyfarfod diwethaf:

- a) 05/08/24 £40.00 i Caroline Jones - ad-daliad am gwrs Ymateb i Geisiadau Cynllunio
- b) 12/08/24 £37.00 i Caroline Jones – ad-daliad am gost bin brown i'r fynwent
- c) 27/08/24 Cyflog y Clerc (mis Awst): £443.87

Ac:

- d) Ann Llwyd, cyfieithydd: £70
- e) Cyflog y Clerc: £443.87
- f) PAYE a YG: £110.80
- g) Cyngor Gwynedd: £2,000 am gyfraniad yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol at doiledau Lôn Nant Iago - ail daliad (YG yn ad-dalu CCLI am hyn). Heb dderbyn yr anfoneb gan Gyngor Gwynedd hyd yma.
- h) Archwilio Cymru – wedi derbyn llythyr atgoffa, heb ei dalu pan dderbyniwyd mis Mehefin: £325.00
- i) Stermat: £17.99 am gwn staplo: ad-daliad i Clerc

Datganiadau banc: Rhannwyd y datganiadau gyda'r papurau o flaen llaw a rhannodd y Cadeirydd balansau'r diwrnod hwnnw sef:

- a) Natwest Business Reserve – balans 30/09/2024 yn £1,195.30
- b) Natwest Current – balans 30/09/2024 yn £50,335.87
- c) Natwest Liquidity Manager – balans 30/09/2024 yn £70,140.29

10. Ceisiadau Cynllunio:

Dim newydd wedi eu derbyn.

Woodcroft: Roedd cais ôl-weithredol i'w ystyried gan Bwyllgor Cynllunio Cyngor Gwynedd ar 30 Medi 2024. Rhoddwyd y sylwadau isod i Gyngor Gwynedd yn y cais gwreiddiol a thynnwyd sylw at y rhain unwaith yn rhagor drwy e-bost i Gyngor Gwynedd ar 23 Medi 2024. Derbyniwyd

Cofnodion Cyfarfod Hybrid 30 Medi 2024 am 7:00 yr hwyr.

sicrhad gan Gyngor Gwynedd y byddai'r sylwadau yn cael eu cyflwyno i'r cynghorwyr sir.

Cafwyd gwybodaeth gan Greta Hughes bod yr ymgeisydd wedi tynnu'r cais yn ôl y diwrnod hwnnw.

Glan y Gors: cais ôl-weithredol, derbyniwyd y cais wreiddiol ym mis Awst ac anfonwyd yr isod yr adeg honno:

Dim gwrthwynebiad i'r cais gwreiddiol ond mae mwy o waith wedi ei wneud nag oedd ar y cynllun gwreiddiol.

Mae'r gwaith sydd wedi ei wneud yn ehangach nag beth gytunwyd.

Mae'r adeilad newydd yn sylweddol mwy na'r un gwreiddiol.

Mae cryn dipyn o waith clirio coed wedi digwydd mewn ardal AHNE- ni chytunwyd ar hyn.

Mae disgwyliadau ar gynghorau lleol a genedlaethol i hybu a chynyddu bioamrywiaeth.

Mae'r gwaith sydd wedi ei wneud yma yn mynd yn groes i hyn.

Gofynnwyd i'r Clerc ofyn i Gyngor Gwynedd am copi papur gyda throslun o'r cynlluniau ar geisiadau sydd yn mynd yn ôl i bwyllgor / cael eu cyflwyno am yr ail waith.

11. Mabwysiadu polisiau a rheolau Cyngor Cymuned Llanbedrog wedi eu hadolygu

Cytunwyd i bob dogfen gyda'r un newid isod:

Rheolau Sefydlog: Pwynt: 4.1 – newid i: **4 cynghorydd** yn cynnwys y cadeirydd bydd cworwm.

Daeth y cyfarfod i ben am 20.12.

Cyfarfod nesaf dydd Llun, Hydref 28, 2024.

COFNODION DRAFFT WEDI EU CADARNHAU GAN Y CADEIRYDD	
ARWYDDWYD	D. A Parry DYDDIAD: 07 Hydref 2024
COFNODION WEDI EU CADARNHAU	
ARWYDDWYD	DYDDIAD: